# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meithrinfa Ddydd Coleg y Cymoedd**

**Campws Ystrad Mynach**
**Heol Twyn**
**Ystrad Mynach**
**Hengoed**
**CF82 7XR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**2 Ebrill 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Ddydd Coleg y Cymoedd yn gweithredu o adeilad benodedig ar gampws coleg Ystrad Mynach. Mae wedi'i gofrestru ers mis Mehefin 2015 i ofalu am uchafswm o 47 o blant rhwng naw mis a phum mlwydd oed. Mae'r gwasanaeth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9.00am a 4.30pm, yn ystod y tymor yn unig. Y coleg sy'n rhedeg y gwasanaeth fel cwmni cyfyngedig. David Brookes yw'r Unigolyn Cyfrifol enwebedig sydd â chyfrifoldeb cyffredinol. Cyflogir Person â Chyfrifoldeb i fod yn gyfrifol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Prif iaith weithredol y gwasanaeth yw Saesneg gydag ymdrech dda i wneud defnydd achlysurol o'r Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

1. **Asesiad cyffredinol**
   Mae Meithrinfa Ddydd Coleg Y Cymoedd yn wasanaeth sy'n cael ei redeg yn dda. Mae'r plant yn hapus, yn rhyngweithio'n briodol ac yn setlo'n dda. Cânt ofal gan dîm o staff cyson a sefydledig, sydd wedi bod yn y gwasanaeth ers cryn amser. Mae'r staff yn gymwys, yn frwd ac yn cynnig gofal ymatebol. Mae cydberthnasu da rhwng y staff a'r plant. Mae'r amgylchedd yn lân, yn olau ac yn ysgogol, ac yn cynnwys dodrefn ac adnoddau sy'n briodol ar gyfer oedran y plant. Mae'r gwaith papur yn fanwl ac yn drefnus. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni gofynion Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

2. **Gwelliannau**
   Mae'r argymhellion a wnaed yn ystod yr arolygiad diwethaf wedi cael eu rhoi ar waith. Mae gwelliant wedi bod o ran defnydd o'r Gymraeg ac mae'n flaenoriaeth i'r gwasanaeth.

3. **Gofynion ac argymhellion**
   Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn. Cyfeirir at argymhellion arfer da, yn bennaf mewn perthynas â'r amgylchedd a chynllunio gweithgarwch, yng nghorff yr adroddiad a chânt eu crynhoi ar y diwedd.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y gwasanaeth. Maent yn rhyngweithio'n dda ac yn ymgysylltu'n briodol mewn amrywiaeth dda o weithgareddau. Maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff ac maent yn dechrau meithrin cyfeillgarwch. Mae'r plant yn datblygu'n dda ac yn cael cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae gan y plant lais ac mae eu cyfraniadau'n cael eu gwerthfawrogi. Gwelsom fod y plant yn hyderus i fynd at y staff am eu bod yn gwybod y byddai'r staff yn gwrando arnynt. Er enghraifft, clywsom y plant yn gofyn i ailadrodd caneuon yn ystod sesiwn canu grŵp, a gwrandawyd ar eu ceisiadau. Yn ystafell y babanod, nodwyd bod y babanod yn gallu dilyn eu harferion unigol, megis amser cysgu. Dywedodd y staff wrthym, pe byddai'r plant yn cwympo i gysgu cyn cinio, y byddent yn ei gael ar ôl iddynt ddeffro. Mae hyn yn dangos bod anghenion a dewisiadau'r plant yn cael blaenoriaeth dros arferion y gwasanaeth. Roedd cyfleoedd addas ar gael i'r plant ddilyn eu diddordebau, ac i arwain eu chwarae a'u dysgu eu hunain drwy fod yn rhydd i ddewis gweithgareddau. Gwelsom fod safbwyntiau'r plant yn cael eu cynnwys drwy ddefnyddio wynebau hapus wrth werthuso gweithgareddau i ddangos eu mwynhad, a chesglir safbwyntiau'r plant at ddibenion gwerthuso'r gwasanaeth.

Ymgynghorir â'r plant yn y gwasanaeth a rhoddir blaenoriaeth i anghenion unigol.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y gwasanaeth. Mae arferion wedi'u sefydlu'n dda sy'n golygu bod y plant yn gwybod beth i'w ddisgwyl, ac mae hyn yn eu helpu i setlo'n gyflym. Caiff gwaith y plant ei arddangos a'i glodfori, gan helpu'r plant i deimlo bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi. Gwelsom fod y plant wedi meithrin cydberthnasau da â'r staff, a bod y plant yn chwilio amdanynt i gael sylw. Er enghraifft, aeth un plentyn a oedd wedi cynhyrfu i eistedd ar lin aelod o'r staff i gael cwtsh. Cafodd y plentyn ddigon o sylw ac aeth yn ôl i chwarae yn gyflym. Roedd y plant i'w gweld yn hapus. Gwelsom grŵp o blant yn chwarae gyda swigod yn ystafell y plant bach. Roeddent yn rhedeg ar ôl y swigod ac roeddent yn gyffro i gyd pan oeddent yn llwyddo i'w dal. Cawsant lawer o ganmoliaeth gan y staff, ac roedd y plant yn ymateb yn gadarnhaol iawn i hyn.

Caiff ymdrechion y plant eu gwerthfawrogi, ac maent yn hapus ac wedi setlo.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda. Maent yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd, mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran a'u cam datblygu. Gwelsom grwpiau o blant yn yr ystafell cyn-ysgol yn chwarae gyda'i gilydd yn yr hambwrdd tywod, gan sgwrsio am yr

hyn roeddent yn ei wneud, ac yn rhannu adnoddau. Gwelsom fod y plant yn datblygu dealltwriaeth o anghenion eraill. Er enghraifft pan oedd rhai o'r plant yn cysgu, roedd y plant eraill yn rhoi llonydd iddynt, a chlywsom un plentyn yn atgoffa plentyn arall i fod yn dawel er mwyn peidio â'u deffro. Mae amseroedd byrbryd ac amseroedd cinio yn achlysuron cymdeithasol. Mae'r plant yn eistedd gyda'i gilydd wrth fyrddau a chlywsom lawer o sgyrsiau gyda chymorth y staff sy'n eistedd gyda'r plant.

Mae'r plant yn meithrin cyfeillgarwch ac yn rhyngweithio'n dda â'r staff a'i gilydd.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth dda o weithgareddau ac maent yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Gwelsom fod y plant yn gallu arwain eu dysgu eu hunain, a'u bod yn gallu dewis o weithgareddau a oedd yn briodol i'w hoedran a'u cam datblygu. Yn ystafell y babanod, nodwyd bod adnoddau wedi'u gosod ar y llawr a oedd yn galluogi'r babanod i ddewis yr eitemau roeddent am chwarae â nhw, ac yn eu hannog i symud o un tegan i'r llall. Gwelsom y plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a drefnwyd ar eu cyfer yn yr ystafell cyn-ysgol, gan gynnwys tywod, chwarae byd bach, cyweddu a threfnu eitemau. Er bod y plant bach yn ymddiddori'n llawn yn y gweithgareddau dan do ac yr awyr agored, nodwyd mai ychydig o adnoddau a oedd ar gael iddynt ddewis ohonynt yn rhydd yn y brif ystafell. Gwnaethom drafod hyn gyda'r Person â Chyfrifoldeb a gytunodd y byddai adnoddau ychwanegol ar gael i'r plant ddewis ohonynt yn rhydd. Nodwyd hefyd na wnaeth y plant hŷn ddefnyddio'r ardal chwarae yn yr awyr agored yn ystod ein hymweliad, ac ychydig iawn o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau corfforol oedd ar gael. Cafodd hyn ei drafod â'r Person â Chyfrifoldeb yn ystod yr adborth.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu, ond dylid ystyried defnyddio'r ardal chwarae yn yr awyr agored a chynnig mwy o adnoddau er mwyn caniatáu i'r plant ddewis ohonynt yn rhydd.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn datblygu'n dda ac yn cael cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth. Gwelsom fod cofnodion y plant yn dangos eu datblygiad drwy dynnu sylw at y sgiliau maent wedi'u meithrin. Roedd y plant hŷn yn gallu defnyddio'r toiledau'n annibynnol, ac roedd y staff yn eu hatgoffa i olchi eu dwylo mewn ffordd addfwyn. Nodwyd bod y staff yn rhoi cyllyll a ffyrc a oedd yn addas i oedran y plant yn ystod amser cinio, a rhoddwyd cymorth i'r plant i'w defnyddio. Yn ystafell y babanod, gwelsom fod y plant yn cael eu hannog i fwydo eu hunain, os oedd hynny'n briodol i'w hoedran a'u cam datblygu. Roedd y plant yn gallu dewis y gweithgareddau roeddent yn cymryd rhan ynddynt. Er enghraifft, pan oedd y blant bach yn chwarae gyda swigod, gwelsom fod un plentyn wedi mynd i chwarae gyda'r ceir. Roedd hyn yn dangos bod y plant yn gallu dilyn eu diddordebau eu hunain a gwneud penderfyniadau.

Mae'r plant yn datblygu sgiliau priodol ac maent yn dod yn ddysgwyr annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae’r staff yn gydwybodol yn eu rôl o ran cadw’r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau diogelu ac mae pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diogelu, hylendid bwyd a chymorth cyntaf pediatrig diweddaraf. Caiff risgiau i ddiogelwch y plant eu nodi a'u dileu, lle y bo'n bosibl. Mae'r staff yn rheoli rhyngweithio'r plant yn dda, ac maent yn monitro cynnydd y plant yn ofalus. Mae'r gweithgareddau a gynigir yn briodol i oedran a cham datblygu'r plant, ac yn apelio at eu diddordebau.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn ymrwymedig i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae polisi diogelu cynhwysfawr ar waith sy'n cynnwys gwybodaeth am 'Atal', sef menter y llywodraeth i helpu darparwyr gofal plant i adnabod arwyddion eithafiaeth a radicaleiddio. Gwnaethom siarad â'r staff a oedd yn siarad yn hyderus am y gweithdrefnau ar gyfer cyfeirio unrhyw bryderon. Gwelsom fod yr holl hyfforddiant, megis diogelu plant, hylendid bwyd a chymorth cyntaf pediatrig yn gyfredol. Mae gan y gwasanaeth bolisi bwyta'n iach a gwelsom fod y plant yn cael prydau bwyd a byrbrydau iachus. Gwelsom fod alergenau a dewisiadau wedi'u harddangos yn y gegin, a nodwyd bod y staff yn ymlynu wrth y rhain, er enghraifft, cafodd un plentyn ei ginio heb y grefi, gan nad oedd yn ei hoffi. Siaradodd y staff yn hyderus am anghenion deietegol unigol a sut roeddent yn diwallu'r anghenion hynny. Gwelsom fod asesiadau risg yn fanwl a bod risgiau i ddiogelwch y plant yn cael eu dileu, lle bo hynny'n bosibl. Gwelwyd bod gan y staff ddealltwriaeth dda o reoli risgiau, er enghraifft, pe bai tywod yn cael ei sarnu ar y llawr, byddai'n cael ei lanhau fel na fyddai'r plant yn llithro arno, a rhoddwyd gwybod i'r plant am ardaloedd yn yr ardd lle na ddylent chwarae, am ei bod yn llithrig. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ymarfer gweithdrefnau gwagio'r adeilad adeg tân er mwyn iddynt wybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Cynhelir y rhain ddwywaith y flwyddyn, a thrafodwyd gyda'r Person â Chyfrifoldeb am y posibilrwydd o gynnal yr ymarferion tân yn fwy aml er mwyn i bob plentyn gael cyfle i ymarfer. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r allanfeydd tân a sut i adael yr adeilad yn effeithiol.

Gall rhieni fod yn hyderus bod plant sy'n mynychu'r gwasanaeth yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda iawn. Nodwyd bod awyrgylch hamddenol iawn yn y gwasanaeth. Roedd y staff yn siarad â'r plant a'i gilydd yn dawel ac yn barchus, gan osod esiampl dda. Gwelsom fod y staff yn gweithredu'n gyson ac yn gweithio'n unol â'r polisi rheoli ymddygiad. Ar ddiwrnod ein hymweliad roedd ymddygiad y plant yn dda iawn, ond pan oedd angen eu hatgoffa, gwnaed hynny mewn modd tawel a chefnogol. Clywsom aelod o'r staff yn atgoffa un plentyn i beidio â

rhoi tywod ar y llawr oherwydd gallai rhywun lithro arno. Ymatebodd y plentyn yn dda a helpodd plentyn arall i glirio'r tywod o'r llawr. Gwelsom fod y staff yn cefnogi'r plant i ryngweithio â'i gilydd. Yn ystod amser cylch, eisteddodd y staff ar y llawr gyda'r plant ac ymuno â'r gweithgareddau, ac eisteddodd y staff gyda'r plant yn ystod amser cinio a byrbryd i annog sgyrsiau. Clywsom lawer o ganmoliaeth ar gyfer ymddygiad cadarnhaol, megis cymryd tro ac ymddwyn yn dda. Ymatebodd y plant i ganmoliaeth yn gadarnhaol ac roeddent yn awyddus i blesio'r staff.

Mae'r staff yn rheoli ymddygiad yn effeithiol ac mae hyn yn arwain at awyrgylch tawel a hamddenol.

**2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?**

Mae’r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn diwallu eu hanghenion unigol. Gwelsom fod gweithgareddau’n cael eu trefnu’n ofalus, a’u bod yn cynnwys trosolwg o’r pwnc, a chaiff trefniadau wythnosol eu gwerthuso ac maent yn ystyried safbwyntiau’r plant. Mae’r staff yn arsylwi ar gynnydd y plant yn rheolaidd ac yn cofnodi camau allweddol yn eu datblygiad. Mae hyn yn helpu i lywio’r camau dysgu nesaf ar gyfer y plant unigol. Mae’r gwaith cynllunio ac arsylwi’n dilyn egwyddorion Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Ceir amrywiaeth dda o weithgareddau dan arweiniad oedolion a gweithgareddau dewis rhydd er mwyn galluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r staff yn helpu'r plant yn dda gyda'u dysgu a'u datblygiad. Gwnaed defnydd da o gyfleoedd i ddatblygu iaith, a hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg. Clywsom y staff yn holi cwestiynau, megis ‘*how many are there?’, ‘what colours can you see?’* a *‘what does it feel like?’.* Roedd y staff yn defnyddio llawer o Gymraeg achlysurol, megis lliwiau, rhifau, cyfarwyddiadau syml a chanu caneuon Cymraeg.

Mae’r staff yn gyfarwydd â datblygiad plant ac yn diwallu anghenion unigol yn dda.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Gofelir am y plant mewn amgylchedd glân, golau a diogel. Mae'r adeilad yn diogel ac mae asesiadau risg cadarn yn sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u dileu, lle bo hynny'n bosibl. Mae'r adnoddau a'r dodrefn yn addas ar gyfer ystod oedran y plant, ac mae'r adnoddau o ansawdd da ac mewn cyflwr da.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i'r plant. Mae’r ardal dan do a’r ardal awyr agored yn ddiogel a gofynnwyd i ni brofi pwy oeddem pan wnaethom gyrraedd. Mae gwiriadau nwy a thrydan yn cael eu cynnal ac mae’r staff yn cynnal gwiriadau dyddiol i sicrhau bod yr ystafelloedd chwarae a’r ardal awyr agored yn ddiogel. Gwelsom fod gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer casglu’r plant, a gofynnwyd am gyfrineiriau diogelwch pan nad oedd y staff yn gyfarwydd â’r oedolion. Gwelwyd bod yr adnoddau a’r dodrefn yn bodloni’r safonau diogelwch angenrheidiol. Gwelwyd bod asesiadau risg yn fanwl ac yn cael eu hadolygu’n rheolaidd. Roedd y staff yn rhoi sylw i’r amgylchedd drwy gydol y dydd ac yn sicrhau bod risgiau yn cael eu nodi ac yr ymdrinnir â nhw yn amserol.

Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ar gyfer gofalu am blant.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Caiff y plant ofal mewn amgylchedd addas. Mae’r ardaloedd chwarae yn olau, yn lân ac yn ysgogol. Roeddent wedi’u trefnu mewn ffordd er mwyn i’r plant gael lle a rhyddid i symud, ac i gael dewis ac amrywiaeth addas. Mae’r plant hŷn yn defnyddio’r toiled yn annibynnol , ac mae ardaloedd preifat ar gyfer newid cewynnau a gofal personol. Mae’r ardal awyr agored yn cynnig digonedd o le i’r plant i fod yn egnïol yn gorfforol a cheir ardal ar wahân i’r babanod chwarae yn ddiogel yn yr awyr agored. Gosodwyd canopïau yn ddiweddar i’w defnyddio fel cysgod yn ystod tywydd cynhesach. Mae man ar wahân i’r babanod gysgu a oedd yn lân, yn gynnes ac yn groesawgar. Gwelsom gofnodion yn dangos bod y tymheredd yn cael ei fonitro i sicrhau bod y plant yn gyfforddus. Mae arddangosfeydd hyfryd o waith y plant yn yr ystafelloedd chwarae. Mae llawer o eirfa Gymraeg wedi’i harddangos o gwmpas yr adeilad, ac roedd y rhan fwyaf o’r arddangosfeydd wedi’u labeli yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae’r swyddfa wedi’i diogelu ac yn caniatáu digon o le i gynnal sgyrsiau cyfrinachol a storio gwybodaeth yn ddiogel.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd mewn cyflwr da a'i fod yn addas ar gyfer nifer y plant sy’n derbyn gofal.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r cyfarpar?

Mae'r adnoddau’n lân, cânt eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn briodol ar gyfer ystod oedran y plant. Gwelsom fod maint ac arddull y dodrefn yn addas ar gyfer plant. Roedd cadeiriau uchel addas i fabanod a chotiau iddynt gysgu ynddynt. Gwelsom fod adnoddau, megis dillad gwisgo i fyny, yn lân ac o ansawdd da. Roedd amrywiaeth dda o adnoddau amlddiwylliannol, megis llyfrau, dolis a phosau, a oedd yn hybu ymwybyddiaeth y plant am amrywiaeth ddiwylliannol. Roedd adnoddau yn yr ardal awyr agored gan gynnwys beiciau, treiciau a cherddwyr, a hefyd cyfarpar llai o faint, megis cylchau a pheli. Roedd nifer ddigonol o adnoddau i’r plant gael amrywiaeth a dewis.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr holl adnoddau o ansawdd da ac yn cynnig amrywiaeth a dewis i’r plant.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae’r gwasanaeth yn cael budd o drefniadau arwain da. Mae gweithdrefnau recriwtio’r staff yn gadarn ac mae’r staff yn cael budd o amrywiaeth dda o gyfleoedd hyfforddiant. Mae’r tîm o staff wedi’i sefydlu’n dda ac roedd y mwyafrif o’r staff wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers cryn amser. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth. Mae proses effeithiol o hunanwerthuso yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei wella’n barhaus.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r trefniadau arwain a rheoli yn effeithiol ac maent yn bodloni gofynion Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Ceir datganiad o ddiben a chynllun gweithredol clir sy’n amlinellu’r hyn y mae’r gwasanaeth yn ei ddarparu, er mwyn i’r rhieni wneud penderfyniad gwybodus am addasrwydd y gwasanaeth ar gyfer eu plentyn. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn fanwl. Mae’r staff yn gweithio yn unol â pholisïau’r gwasanaeth, ac roeddent yn hyderus wrth drafod polisïau a gweithdrefnau allweddol, megis diogelu ac iechyd a diogelwch. Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel, a dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth da a bod eu datblygiad proffesiynol parhaus yn cael ei gefnogi. Mae’r Person â Chyfrifoldeb yn cwrdd â’r Unigolyn Cyfrifol yn rheolaidd er mwyn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf iddo am y gwasanaeth.

Mae trefniadau arwain effeithiol yn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth bob dydd.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso’r gwasanaeth yn effeithiol. Gwelsom fod adroddiad o ansawdd y gofal cynhwysfawr yn cael ei lunio’n flynyddol a bod hwn yn ystyried safbwyntiau'r rhieni, y plant a gweithwyr proffesiynol allanol. Nid yw’n cynnwys safbwyntiau’r staff ar hyn o bryd, a thrafodwyd hyn gyda’r Person â Chyfrifoldeb yn yr adborth. Paratowyd cynllun gweithredu ar gyfer gwella i lywio datblygiadau yn y dyfodol. Gwelsom o gynlluniau ar gyfer gwella blaenorol yr ystyriwyd argymhellion o arolygiadau blaenorol ac yr aed i'r afael â nhw. Mae gweithdrefn gwyno briodol ar waith, ond dywedodd y Person â Chyfrifoldeb wrthym nad oedd y gwasanaeth wedi cael cwyn swyddogol ers yr arolygiad diwethaf.

Mae’r arweinwyr wedi gosod gweithdrefnau da ar gyfer hunanwerthuso sy’n golygu bod y gwasanaeth yn cael ei wella’n barhaus.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r staff yn cael eu rheoli a’u cefnogi’n dda. Mae’r gwasanaeth yn cynnal proses recriwtio cadarn gan wneud yn siŵr bod pob aelod o staff newydd yn addas i weithio gyda phlant. Gwelsom fod gan bob aelod o’r staff rolau a chyfrifoldebau clir sydd

wedi'u hamlinellu yn eu disgrifiadau swydd. Soniodd y staff wrthym am eu rolau penodol, er enghraifft, mae'r dirprwy wedi ymgymryd â rôl y swyddog tân ac roedd yn gyfarwydd â'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r rôl honno. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth gan yr arweinwyr ac y gallent gael mynediad at amrywiaeth dda o hyfforddiant i gefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r arweinwyr yn cynnal arfarniadau blynyddol gyda'r staff, a sesiynau goruchwylio tymhorol pan gaiff targedau ar gyfer gwella eu gosod a'u hadolygu. Cedwir cofnodion manwl o gyfarfodydd y staff sy'n cael eu cynnal bob tymor. Nodwyd bod pob aelod o'r staff yn gweld y cofnodion ac yn llofnodi i gytuno â nhw. Mae'r tîm o staff yn sefydliedig iawn ac mae'r mwyafrif o'r staff wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers cryn amser.

Mae'r staff yn cael cymorth da i gyflawni eu rolau a'u herio'n briodol i gynnal safonau da.

**4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?**

Datblygwyd cydberthnasau da ac effeithiol â'r rhieni. Gwelsom fod gwybodaeth yn cael ei rhannu â'r rhieni drwy drafodaethau ldyddiol staff â'r person â chyfrifoldeb. Mae hysbysfwrdd i rieni'n cynnwys gwybodaeth berthnasol, megis bwydlenni, polisïau a cylchlythyrau. Gwnaethom siarad â rhiant a ddywedodd wrthym "*My child is really happy here. They come every day. It's a great nursery. It's helped them to bond with other children"*. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt gysylltiadau da ag aelodau eraill yn y gymuned, megis y fenyw lolipop, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu a'r llyfrgell leol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig lleoliad ar gyfer myfyrwyr ym maes gofal plant o Goleg y Cymoedd. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym ei bod wedi gweithio yno pan oedd yn fyfyriwr ac wedi mynd ymlaen i gael swydd yn y gwasanaeth.

Mae gan y gwasanaeth bartneriaethau da â'r rhieni a'r gymuned ehangach.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- Datblygu'r nifer o adnoddau dewis rhydd sydd ar gael yn ystafell y plant bach,
- cynnwys safbwyntiau'r staff yn yr adolygiad o ansawdd y gofal,
- cynnal ymarferion tân yn amlach a
- sicrhau bod y plant yn cael defnyddio'r ardal chwarae yn yr awyr agored yn ddyddiol.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cynhaliodd un arolygydd arolygiad dirybudd fel rhan o'n hamserlen arolygu arferol. Treuliwyd tua saith awr yn y feithrinfa dros gyfnod o ddiwrnod. Defnyddiwyd y fethodoleg ganlynol i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn:

• Arsylwi ar arferion gofal;

• trafod â'r Unigolyn Cyfrifol, y Person â Chyfrifoldeb a'r staff;

• sgwrsio â nifer o'r plant;

• trafod gyda'r rhieni;

• cynnal archwiliad gweledol o'r ardaloedd chwarae dan do ac awyr agored;

• ystyried gwybodaeth a ddelir gan AGC, gan gynnwys adroddiad yr arolygiad diwethaf a

• edrych ar ystod o bolisïau a gweithdrefnau gan gynnwys gwybodaeth a ddelir yn ffeiliau'r staff.

Rhoddwyd adborth i'r Person â Chyfrifoldeb ar ddiwedd yr arolygiad.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Unigolyn Cyfrifol | David Brookes |
| Person â chyfrifoldeb | Gail Harris |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 47 |
| Ystod oedran y plant | 9 mis i 5 oed |
| Oriau agor | O ddydd Llun i ddydd Gwener<br>9.00am – 4.30pm<br>Yn ystod y tymor yn unig |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Saesneg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 28 Mehefin 2016 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 10 Ionawr 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae hyn oherwydd bod y gwasanaeth wedi'i leoli mewn ardal Saesneg ei hiaith yn bennaf. Fodd bynnag, argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: Dim | |